

# PWYLLGOR ARIAN CYHOEDDUS Y PORTHLADD RHYDD CELTAIDD

(O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Iau, 26 Medi 2024**

**Cadeirydd:** Cynghorydd J.Harvey

**Is-gadeirydd:** Cynghorydd S.K.Hunt

**Cynghorwyr:** J.Hurley, S.A.Knoyle, P.Miller a/ac J.Beynon

**Swyddogion sy'n Bresennol:** K.Jones, C.Griffiths, S.Brennan, H.Jones, W.Bramble, R.Moxey, J.Haswell, R.Young a/ac C.Plowman

**Cynghorwyr Allanol:** L.Atter

---

## 1. **CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Swyddog Monitro ar gyfer Pwyllgor Cronfeydd Cyhoeddus y Porthladd Rhydd Celtaidd.

## 2. **PENODI CADEIRYDD**

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Cynghorydd Jon Harvey (Cyngor Sir Penfro) yn cael ei benodi'n Gadeirydd Pwyllgor Cronfeydd Cyhoeddus y Porthladd Rhydd Celtaidd.

## 3. **PENODI IS-GADEIRYDD**

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyng. Steve Hunt (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd Pwyllgor Cronfeydd Cyhoeddus y Porthladd Rhydd Celtaidd.

#### 4. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

#### 5. **CYLCH GORCHWYL**

Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl i'r aelodau ar gyfer Pwyllgor Cronfeydd Cyhoeddus y Porthladd Rhydd Celtaidd.

Eglurwyd mai un o brif egwyddorion y rhaglen Porthladd Rhydd oedd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy broses a strwythur sy'n cadw'r ymagwedd 'allwedd ddeuol' gyhoeddus-breifat, gan sicrhau atebolrwydd democrataidd am wariant arian cyhoeddus; er mwyn galluogi'r broses ddemocrataidd honno i ddigwydd, penderfynwyd y byddai Pwyllgor Cronfeydd Cyhoeddus yn cael ei greu.

Cadarnhaodd swyddogion mai rôl y Cydbwyllgor fydd sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol ar gyfer dyrannu arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion deddfwriaethol a gwerth am arian; bydd y Cydbwyllgor naill ai'n gallu cymeradwyo neu wrthod cynigion gan y Cwmni Porthladd Rhydd Celtaidd.

Cyfeiriwyd at y swyddogaethau a fydd gan y Cyd-bwyllgor, sy'n cynnwys ystyried ac adolygu achosion busnes prosiectau sy'n ceisio cymorth ariannol o gyllid cyhoeddus fel yr argymhellwyd i'r Cyd-bwyllgor gan Fwrdd y Porthladd Rhydd Celtaidd. Swyddogaeth allweddol arall a amlygwyd oedd y gallu i gymeradwyo achosion busnes prosiectau sy'n gymwys i dderbyn cyllid o gyllid cyhoeddus; bydd gan y Cyd-bwyllgor ddisgresiwn llwyr ynghylch a ddylid cymeradwyo neu wrthod unrhyw achosion busnes prosiectau a argymhellwyd gan Fwrdd y Porthladd Rhydd Celtaidd am gymorth ariannol o gyllid cyhoeddus. Yn ogystal, bydd y Cyd-bwyllgor yn goruchwyllo'r gwaith cyffredinol o reoli'r cronfeydd cyhoeddus hynny'n feunyddiol, gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu fel y corff atebol i Lywodraeth y DU mewn perthynas â hwy.

Dywedwyd y bydd y Cyd-bwyllgor yn cynnwys cyfanswm o chwe Aelod, tri o bob Awdurdod Lleol; gyda'r gallu i benodi dirprwy Aelod y Cabinet i gymryd lle aelod arall os na all fod yn bresennol. Roedd yn bwysig nodi mai'r cworwm ar gyfer y cyfarfod oedd tri Aelod o bob Awdurdod Lleol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd gan bob Aelod o'r Cydbwyllgor un bleidlais. Eglurwyd, pe bai nifer cyfartal o bleidleisiau (anghytundeb

llwyr) ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor, y bydd y mater perthnasol sy'n arwain at yr anghytundeb llwyr yn cael ei aildrefnu fel eitem agenda i'w hailystyried gan y Cyd-bwyllgor yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael; nid oes gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

Gofynnwyd a oedd proses ar waith os nad oedd yr Aelodau'n dod i gytundeb ar ôl i'r mater gael ei ailystyried yn y cyfarfod nesaf. Amlygodd swyddogion fod cymalau datrys anghydfod o fewn y cytundeb lle bydd cyfle i gael rhywfaint o gyflafareddu annibynnol.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod cylch gorchwyl Pwyllgor Cronfeydd Cyhoeddus y Porthladd Rhydd Celtaidd yn cael ei nodi.

## **6. Y PORTHLADD RHYDD CELTAIDD - CYNIGION CYFALAF SBARDUNO**

Cyflwynodd swyddogion adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer cynnwys y rhestr o gynigion cyfalaf sbarduno yn yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd.

Rhoddodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro drosolwg o'r cefndir o ran ymdrech y Porthladd Rhydd hyd yn hyn, a'r camau nesaf wrth symud ymlaen â'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn.

Esboniwyd bod yr Achos Busnes Amlinellol wedi cael ei gymeradwyo gan y ddau Awdurdod Lleol yn flaenorol a'i gyflwyno i Lywodraeth y DU; roedd swyddogion wedi disgwyl derbyn adborth a phenderfyniad i gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol erbyn hyn, fodd bynnag roedd yr Etholiad Cyffredinol sydyn a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2024 wedi amharu ar yr amserlen. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd y broses hon wedi'i chwblhau eto.

O ran yr Achos Busnes Llawn, roedd Llywodraeth y DU wedi gofyn am gyflwyno'r achos yn gynt, yn gynnar ym mis Hydref 2024; roedd hyn er mwyn ceisio sicrhau bod y broses hon wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2024. Nodwyd y bydd Aelodau'r ddau Awdurdod Lleol yn derbyn yr Achos Busnes Llawn drafft dros yr wythnosau nesaf i'w adolygu a phenderfynu arno cyn ei gyflwyno'n derfynol i Lywodraeth y DU.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod gofyniad o fewn yr Achos Busnes Llawn i gyflwyno cynigion ar gyfer buddsoddi'r cyllid cyfalaf sbarduno gan Lywodraeth y DU. Roedd yr adroddiad a gylchredwyd yn nodi'r

defnydd arfaethedig o gyfalaf sbarduno i'w ystyried gan y Cyd-bwyllgor, ac roedd y Swyddogion yn ceisio penderfyniad ar y rhestr o brosiectau i'w cynnwys yn yr Achos Busnes Llawn.

Soniwyd bod y cynigion wedi bod yn destun proses eithaf trylwyr, fodd bynnag, roedd yr amserlen gyflymach wedi effeithio ar lefel y craffu ar gyfer rhai prosiectau penodol.

Hysbyswyd yr aelodau fod yr elfen cyfalaf sbarduno o hyd at £25 miliwn fesul Porthladd Rhydd, yn rhan hirsefydlog o'r pecyn; gyda'r syniad i helpu i sbarduno prif fuddsoddiadau ar gam cynnar er mwyn helpu'r Porthladd Rhydd i gyflawni ei amcanion.

Amlygwyd bod yr Achos Busnes Llawn yn un cam yn y broses o ddyrannu cyfalaf sbarduno; pe bai'r Achos Busnes Llawn yn cael ei gymeradwyo, yna roedd angen i achosion busnes unigol lenwi manylion pob un o'r cynigion. Dywedodd swyddogion fod porthladdoedd rhydd eraill wedi profi'r angen i ailedrych ar eu dyraniad gan nad oedd yr achosion busnes manwl mewn perthynas â rhai o'r cynigion, yn cyflawni'r hyn y dylent; roedd llawer o resymau am hyn, fel cynlluniau busnes wedi newid, a/neu nid oedd arian cyfatebol preifat wedi cyrraedd.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r set o brosesau yr oedd y Porthladd Rhydd wedi'i sefydlu i symud ymlaen gyda dyraniadau; roedd hyn yn cynnwys argymhellion gan banel annibynnol a oedd yn mynd gerbron Bwrdd y Porthladd Rhydd, cyn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor. Nodwyd bod yn rhaid rhagfyrhau'r broses hon, yn benodol y gwaith o graffu ar gynigion unigol gan y panel annibynnol; fodd bynnag, rhoddwyd argymhellion i Fwrdd y Porthladd Rhydd, a oedd wedyn wedi llunio'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad a gylchredwyd i'w ystyried gan y Cyd-bwyllgor.

Cytunodd y Cyd-bwyllgor nad oedd Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad a gylchredwyd i'w cyhoeddi, yn unol â Rheoliad 5(2) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 a pharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn unol â Pharagraff 21 o'r Atodlen hefyd, ac yn holl amgylchiadau'r achos, ystyrir bod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

Er mwyn trafod ac ystyried yr Atodiadau preifat, penderfynodd yr Aelodau symud i sesiwn breifat, am y rhesymau uchod. Ar ôl trafod yr

Atodiadau preifat hyn, penderfynodd y Cyd-bwyllgor ailddechrau mewn sesiwn gyhoeddus. Cytunwyd ar y penderfyniad isod mewn sesiwn gyhoeddus.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y rhestr o brosiectau a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad a gylchredwyd yn cael ei chymeradwyo i'w chynnwys yn yr Achos Busnes Llawn.

### 7. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

### **CADEIRYDD**